Llywodraeth Cymru
Welsh Government

# Gwrthsafiad a pharch

Datblygu cydlyniant cymunedol

www.llyw.cymru



## Canllawiau

Dogfen ganllawiau: rhif 196/2016
Dyddiad cyhoeddi: Ionawr 2016

# Gwrthsafiad a pharch – datblygu cydlyniant cymunedol

| | |
|---|---|
| **Cynulleidfa** | Awdurdodau lleol; penaethiaid a chyrff llywodraethu ysgolion a gynhelir; penaethiaid a chyrff llywodraethu ysgolion gwirfoddol a gynorthwyir ac ysgolion sefydledig; athrawon sy'n gyfrifol am unedau cyfeirio disgyblion; darparwyr gofal plant; awdurdodau esgobaethol yr eglwys; perchenogion ysgolion annibynnol; gwasanaethau ieuenctid gwirfoddol a rhai a gynhelir; undebau staff ysgolion; awdurdodau addysg uwch; sefydliadau hyfforddi athrawon; Cadeiryddion Byrddau Diogelu Plant Lleol; Partneriaethau Diogelwch Cymunedol a sefydliadau sy'n arwain o ran diogelu plant a chydlyniant cymunedol. |
| **Trosolwg** | Dogfen ganllaw ac arferion da yw hon sydd â'r amcan o hybu datblygiad cydlyniant cymunedol ac atal eithafiaeth dreisgar yn yr holl ysgolion uwchradd, unedau cyfeirio disgyblion, ysgolion arbennig a lleoliadau addysgol eraill.<br><br>Yn ôl y canllawiau diwygiedig i ysgolion yng Nghymru (Medi 2015), bydd ysgolion yng Nghymru'n cefnogi eu cymunedau lleol yn uniongyrchol drwy roi negeseuon cryf a chadarnhaol i ddysgwyr sy'n hybu cyd-ddealltwriaeth, goddefgarwch a pharch. Bydd ysgolion yn creu amgylcheddau dysgu diogel er mwyn i ddysgwyr allu meithrin dealltwriaeth, ymwybyddiaeth a gwrthsafiad. Bydd dysgwyr yn rhydd i ffurfio a choleddu eu hunaniaeth a'u credoau eu hunain a byddant hefyd yn gallu byw a dysgu'n ddiogel rhag bygythiad, perygl a niwed. |
| **Camau i'w cymryd** | Cymryd sylw dyladwy o'r canllawiau a'r arferion da er mwyn helpu ysgolion i ddatblygu a hybu dulliau strategol o hyrwyddo a chynnal cydlyniant cymunedol ac atal eithafiaeth dreisgar. |
| **Rhagor o wybodaeth** | Dylid cyfeirio ymholiadau am y ddogfen hon at:<br>Is-adran Rheolaeth ac Effeithiolrwydd Ysgolion<br>Llywodraeth Cymru<br>Parc Cathays<br>Caerdydd<br>CF10 3NQ<br>e-bost: SMED1@cymru.gsi.gov.uk |
| **Copïau ychwanegol** | Mae'r ddogfen hon ar gael o wefan Llywodraeth Cymru yn llyw.cymru/dysgu |
| **Dogfennau cysylltiedig** | *Gwrthsafiad a pharch, datblygu cydlyniant cymunedol – dealltwriaeth gyffredin ar gyfer ysgolion a'u cymunedau* (2011) |

OGL © Hawlfraint y Goron 2016 WG26438 ISBN digidol 978 1 4734 5452 1

# Cynnwys


**1. Cyflwyniad** **2**

**2. Y cyd-destun** **4**

**3. Beth sydd wedi newid?** **5**

**4. Canllawiau diwygiedig** **8**

4.1 Diogelu 8

4.2 Meithrin yn amhriodol – cysylltiad â recriwtwyr 9

4.3 Digwyddiadau, cyfarfodydd a siaradwyr sy’n ymweld 11

4.4 Y cyd-destun geowleidyddol 12

4.5 Technoleg gwybodaeth a chyfathrebu – llythrennedd digidol 14

4.6 Ysgolion sy’n canolbwyntio ar gymunedau 16

4.7 Cwricwlwm 17

4.8 Fframwaith arolygu Estyn 18

4.9 Strategaethau’r llywodraeth 19

**5. Gwrthsafiad a pharch – crynodeb o’r canllawiau** **21**

**6. Crynodeb o’r camau gweithredu a nodwyd yn Adran 4 – canllawiau diwygiedig** **22**

**Atodiad 1: Y broses atgyfeirio** **25**

**Atodiad 2: Cyfeiriadau** **26**

# 1. Cyflwyniad

Cyhoeddwyd fersiwn gyntaf y ddogfen ganllawiau *Gwrthsafiad a pharch: Datblygu cydlyniant cymunedol – dealltwriaeth gyffredin ar gyfer ysgolion a'u cymunedau* (www.gov.wales/docs/dcells/publications/110209respectcy.pdf) ym mis Ionawr 2011. Diben y ddogfen oedd helpu ysgolion a'u partneriaid i ddatblygu dulliau sy'n hybu ac yn cynnal cydlyniant cymunedol. Serch hynny, mae nifer o newidiadau a datblygiadau wedi bod ers y dyddiad hwnnw, ac mae goblygiadau'r rhain wedi'u rhestru yma yn y ddogfen ddiwygiedig hon.

Er mwyn cyhoeddi'r ddogfen hon, adolygwyd dogfen ganllawiau 2011 yn llwyr gan yr awdur gwreiddiol ar y cyd â'r prif bartneriaid, yn bennaf Llywodraeth Cymru, Estyn, yr heddlu a'r Swyddfa Gartref. Mae'r prif faterion wedi'u hystyried ac mae hyn wedi creu cyfleoedd i asesu opsiynau ar gyfer newid ac wedi helpu i lunio'r canllawiau diwygiedig. Llywiwyd cyhoeddi'r ddogfen atodol hon drwy barhau i ymgysylltu â'r prif bartneriaid, yn ogystal ag oherwydd y dyletswyddau sydd ar y sector ysgolion drwy ddeddfwriaeth ddiweddar a'r goblygiadau yn sgil digwyddiadau.

Y prif newid deddfwriaethol fu rhoi Deddf Gwrthderfysgaeth a Diogelwch 2015 ar waith a chyhoeddi'r *Revised Prevent Duty Guidance: for England and Wales* (Gorffennaf 2015) (Saesneg yn unig) (www.gov.uk/government/uploads/system/uploads/attachment_data/file/445977/3799_Revised_Prevent_Duty_Guidance__England_Wales_V2-Interactive.pdf).

Mae'r ddogfen yn gosod y gofynion ar gyfer amrywiaeth o sefydliadau, gan gynnwys pob ysgol yng Nghymru, gan ganolbwyntio ar asesu risg, hyfforddi staff, cymorth i ddysgwyr, polisïau, monitro a gorfodi.

Mae hefyd yn diffinio termau cyffredin megis eithafiaeth:

> Vocal or active opposition to fundamental British values, including democracy, the rule of law, individual liberty and mutual respect and tolerance of different faiths and beliefs. We also include in our definition of extremism calls for the death of members of our armed forces, whether in this country or overseas.[1]

Mae'r adrannau o'r Ddeddf sy'n ymwneud ag ysgolion wedi dod yn ddyletswydd ers **1 Gorffennaf 2015**.

[1] *Revised Prevent Duty Guidance: for England and Wales,* Glossary of terms (tudalen 27)

Nod y ddogfen ganllawiau ddiwygiedig hon *Gwrthsafiad a pharch* yw cynnig gwybodaeth i bob ysgol, gan gynnwys eu cyfeirio at adnoddau allanol, cyngor a chymorth drwy gyfrwng prosesau atgyfeirio sydd wedi'u sefydlu eisoes, ynghylch yr hyn sy'n achosi eithafiaeth dreisgar a'r camau gellir eu cymryd i'w hatal.

Gyda'r ddogfen atodol hon, ceir pecyn hunanasesu sydd wedi'i ddiweddaru. Mae hwnnw'n galluogi ysgolion i asesu i ba raddau y maent yn cydymffurfio â'r arferion gorau wrth greu cymuned ddysgu ddiogel. Mae wedi'i seilio ar becyn hunanasesu[2] sydd wedi'i ddatblygu a'i dreialu gan nifer sylweddol o sefydliadau addysg bellach Cymru, a bydd yn galluogi ysgolion i asesu i ba raddau y maent yn cydymffurfio â'u dyletswyddau statudol, a pha mor barod ydynt i ymateb i'r heriau sy'n codi yn sgil bygythiad o eithafiaeth ar ei hamrywiol ffurfiau.

[2] www.gov.wales/topics/educationandskills/publications/guidance/respectresilience/?skip=1&lang=cy

## 2. Y cyd-destun

Adeg cyhoeddi dogfen 2011, roedd cysylltiad agos rhwng y maes gweithgarwch hwn â'r gwaith a oedd yn mynd rhagddo yn Llywodraeth Cymru ac mewn awdurdodau lleol drwy Gymru i gryfhau cydlyniant cymunedol. Sylweddolwyd bod hwn yn amod angenrheidiol, er nad yn ddigonol, er mwyn sicrhau lles ein dysgwyr yn ein hysgolion, ein colegau a'n prifysgolion. Erbyn hyn, mae llawer mwy o bwyslais ar sicrhau ffocws clir a manwl ar ddiogelu mewn cymunedau dysgu ym mhob sector addysg. Y newid hwnnw yw un o'r prif bethau sy'n sbarduno'r gweithgarwch cydweithredol i gyhoeddi'r ddogfen ddiwygiedig hon, a sicrhau ei bod yn cael ei lledaenu a'i rhoi ar waith. Rhestrir y dyletswyddau sydd ar y gwasanaeth addysg i gadw dysgwyr yn ddiogel yn y ddogfen ganllawiau *Cadw dysgwyr yn ddiogel* (www.gov.wales/topics/educationandskills/publications/guidance/keeping-learners-safe/?skip=1&lang=cy).

Ar adeg pan fydd bygythiadau terfysgol yn aml yn y newyddion, ac y gall cyfeillion a gelynion ill dau ddod o dan amheuaeth a gwyliadwriaeth, mae gwir angen asesu sut mae cadw'r ddysgl yn wastad. Ar y naill law, mae'n bwysig rhoi'r rhyddid i ddysgwyr fod yn wahanol, i arbrofi, i arddel barn gadarn a chael syniadau heriol. Ar y llaw arall, mae hi yr un mor bwysig inni gadw dysgwyr yn ddiogel rhag pob math o gam-drin ac esgeulustod, gan gynnwys cam-fanteisio, bwlio, meithrin yn amhriodol, radicaleiddio, eithafiaeth dreisiol, aflonyddu, troseddau casineb a thrais.

Mae ysgolion yng Nghymru'n darparu amgylchedd dysgu cynhwysol a chyfun iawn. Maent yn ymfalchïo yn eu hamrywiaeth a'u cynhwysiant cymdeithasol. Maent hefyd yn rhoi pwys mawr ar ofal bugeiliol ac ar ddiogelu dysgwyr o bob oed.

## 3. Beth sydd wedi newid?

Mae llawer mwy o bwyslais wedi bod ar **ddiogelu** fel elfen bwysig o sicrhau lles ein dysgwyr, a'u galluogi i lwyddo yn eu dysgu a datblygu fel unigolion. Mae hyn wedi cynnwys meithrin dealltwriaeth eglurach o'r prosesau lle bydd pobl sy'n agored i niwed, yn enwedig bobl ifanc, yn cael eu denu at weithgareddau a allai fod yn niweidiol. Mae pobl yn deall yn well y broses sy'n digwydd wrth i bobl gael eu **meithrin yn amhriodol** drwy gysylltiad â recriwtwyr, yn bersonol a thrwy ddulliau digidol, ac mae goblygiadau hyn i bobl sy'n agored i niwed yn cael eu cydnabod yn ehangach o lawer. Cydnabyddir bellach fod y broses a oedd wedi'i chysylltu'n bennaf â cham-drin a cham-fanteisio rhywiol yn broses hefyd a allai ddenu pobl at amrywiaeth o sefyllfaoedd lle y gallai niwed ddigwydd, iddyn nhw fel dioddefwyr, i'w teuluoedd ac i'r gymuned ehangach. Mae nifer y dysgwyr yng Nghymru a atgyfeiriwyd am fod perygl iddynt gael eu radicaleiddio gan grwpiau eithafol wedi cynyddu dros y tair blynedd diwethaf ac mae cyfanswm o 41 o blant o dan 18 oed, rhai mor ifanc â thair oed, wedi cael eu cyfeirio at raglen ymyrryd yr heddlu Channel[3]. Mae hyn yn awr wedi golygu bod gan yr holl staff sy'n gweithio mewn ysgolion ac mewn lleoliadau addysgol eraill fwy o gyfrifoldeb byth i sicrhau bod pob dysgwr yn cael ei gadw'n ddiogel.

Mae'r canllawiau a'r arferion diogelu wedi esblygu'n sylweddol a bellach mae'r rhain yn elfen hanfodol er mwyn sicrhau lles dysgwyr mewn ysgolion ac mewn lleoliadau addysgol eraill, yn anad dim drwy ddatblygu prosesau, a dynodi uwch unigolyn a staff hyfforddi i sicrhau bod hyn yn cael ei roi ar waith. Mae hyn wedi arwain at gydnabod rôl cyrff llywodraethu/perchnogion i sicrhau bod polisïau a gweithdrefnau effeithiol ar waith i ddiogelu a hybu lles dysgwyr. O fewn y rôl hon, mae angen diogelu dysgwyr rhag dylanwadau allanol posibl drwy fynediad amhriodol i'r rhyngrwyd.

Mae ymwybyddiaeth gynyddol hefyd wedi bod o faterion difrifol iawn sy'n gallu cael effaith sylweddol ar les a diogelwch dysgwyr, ac yn benodol y rheini o leiafrifoedd ethnig, diwylliannol a chrefyddol. Mae'r rhain yn cynnwys anffurfio organau rhywiol merched, priodasau gorfodol a chaethwasiaeth fodern.

Mae digwyddiadau go iawn a chudd-wybodaeth am ddigwyddiadau posibl ac ymgyrchoedd yng Nghymru ac mewn gwledydd eraill yn y Deyrnas Unedig wedi datgelu perygl i bobl gael eu denu at eithafiaeth dreisgar. Mae sawl gwrthdaro cymhleth wedi datblygu mewn gwledydd o'r Dwyrain Canol i Ogledd a Dwyrain Affrica, a'r crynodiad mwyaf i'w weld yn Irac ac yn Syria. Mae tensiynau wedi

[3] *Channel Duty Guidance* (Saesneg yn unig)
www.gov.uk/government/publications/channel-guidance

bod yn cynyddu o fewn cymunedau yng Nghymru, a rhyngddynt, yn sgil agweddau sectyddol, llwythol ac ethnig y gwrthdrawiadau hyn.

Mae nifer gynyddol o unigolion wedi cynllunio, ac mewn ambell achos, wedi rhoi ar waith gynlluniau i chwarae rhan weithredol mewn ymgyrchoedd a rhyfeloedd yn y rhanbarthau dan sylw, mewn rolau ymladd a chefnogi. Mae eraill wedi teithio i ardaloedd lle mae'r gwrthdaro'n digwydd, gan ddweud eu bod yn mynd yno am resymau dyngarol, gan amlaf i ymuno ag aelodau'r teulu. Byddant fel rheol yn teithio drwy wledydd eraill yn y rhanbarthau yr effeithir arnynt neu drwy eu cyffiniau. Wrth gwrs, mae eithafiaeth yn codi ei phen ar ffurfiau eraill hefyd, a'r rheini gan amlaf, ond nid bob tro, yn gysylltiedig â naratifau asgell dde a'r canfyddiad bod bygythiadau o'r tu allan i les cymdeithasol, diwylliannol ac economaidd.

Mae newid mawr wedi bod yn y ffordd y bydd dysgwyr yn defnyddio **technoleg ddigidol**, yn enwedig gan fod gan bawb fwy neu lai ddyfeisiau symudol datblygedig iawn. Mae hyn yn digwydd ochr yn ochr â'r ehangu enfawr ar gyfryngau cymdeithasol, yn ogystal â chynnwys o fath arall. Mae'r eithafwyr hynny sy'n dymuno recriwtio pobl i'w rhengoedd wedi dod yn fwyfwy soffistigedig yn y ffordd y maent yn defnyddio platfformau a thechnegau'r cyfryngau cymdeithasol, gan gynnwys targedu eu marchnata ar-lein er mwyn recriwtio pobl, a mabwysiadu technegau datblygedig gemau cyfrifiadurol sydd wedi'u teilwra i'r cynulleidfaoedd dan sylw.

Yn y maes gwaith hwn, mae pwyslais sylweddol ar waith **partneriaeth**, gan gynnwys awdurdodau lleol, llywodraethwyr, penaethiaid, athrawon a staff cymorth, gan adeiladu cysylltiadau effeithiol, ymddiriedol o fewn ysgolion a chyda'r heddlu a 'chydlynwyr Prevent'. Disgwylir i ysgolion hefyd ymgynghori â dysgwyr ynghylch rhoi'r ddyletswydd ar waith, i esbonio'i dibenion a meithrin cyd-ddealltwriaeth. Mae rheoli'r cyfathrebu'n arbennig o bwysig: gan ei gwneud yn ofynnol rhannu gwybodaeth mewn ffordd ddiogel a hyderus, a sefydlu un pwynt cyswllt â'r Bwrdd Diogelu Plant i weithredu **Prevent**. Mae polisïau a strategaethau'r Deyrnas Unedig a Llywodraeth Cymru hefyd wedi esblygu, fel y mae'r amgylchedd allanol. Mae strategaeth **Prevent** Llywodraeth y Deyrnas Unedig, un o bedwar llinyn **CONTEST**, ei strategaeth wrthderfysgaeth, wedi'i diwygio, ac mae'n cynnwys datblygu ystod o weithgareddau gan gynnwys cymorth ymarferol, cyngor a chefnogaeth ac ystod o ddigwyddiadau a rhaglenni i gefnogi unigolion a sefydliadau i wrthbwyso ideolegau maleisus.

Mae Estyn ar hyn o bryd yn gweithredu o fewn y **Fframwaith Arolygu** a sefydlwyd yn 2010. Mae a wnelo elfen berthnasol y fframwaith â gofal, cymorth a chyfarwyddyd. Wrth arolygu ysgolion o fis Medi 2015 ymlaen, bydd Estyn yn disgwyl i arolygwyr ystyried sut y bydd ysgol yn cadw disgyblion yn ddiogel rhag peryglon radicaleiddio ac eithafiaeth. Mae Deddf Gwrthderfysgaeth a Diogelwch 2015 wedi cael ei hychwanegu at restr o ddeddfwriaeth berthnasol yn Atodiad 3 o'r llawlyfrau arolygu ysgolion Estyn perthnasol a hefyd yn *Arweiniad atodol: arolygu diogelu mewn ysgolion ac UCDau* (2015) (www.estyn.llyw.cymru/sites/default/files/documents/Supplementary%20guidance%20-%20Safeguarding%20in%20Schools%20and%20PRUs%20cy%20-%20Autumn%202015.pdf).

Serch hynny, yn sgil canolbwyntio mwy ar ddiogelu, mae Estyn hefyd wedi rhoi mwy o bwyslais ar sicrhau bod gweithdrefnau diogelu'n gweithio, a bod y maes gweithgarwch hwn yn cael ei reoli'n rhagweithiol. Bydd gan gyrff sicrhau ansawdd eraill, megis Arolygiaeth Gofal a Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru (AGGCC), rôl yn sicrhau bod pobl yn cydymffurfio â'r ddyletswydd hon, o ran lleoliadau gofal a safonau.

Mae'r **fframwaith statudol** sy'n sail i addysg wedi parhau i esblygu. Daeth y newid deddfwriaethol mwyaf sylweddol gyda golwg ar ddyletswyddau i amddiffyn plant rhag perygl radicaleiddio yn sgil rhoi Deddf Gwrthderfysgaeth a Diogelwch 2015 ar waith, fel y crybwyllwyd yn y cyflwyniad. Yn sgil hyn, mae dyletswyddau ar ysgolion, fel y nodir. O 1 Gorffennaf 2015 ymlaen, dan y Ddeddf hon, bydd gan bob ysgol a darparydd gofal plant ddyletswydd i roi sylw dyledus i'r angen i atal pobl rhag cael eu denu at derfysgaeth. Yn ôl y diffiniad, sylw dyledus yw rhoi pwys priodol ar y ddyletswydd newydd ac ystyried cyd-destun yr ysgol a'i chymuned.

## 4. Canllawiau diwygiedig

Yn y rhan hon o'r ddogfen, ceir canllawiau wedi'u diweddaru, sy'n canolbwyntio ar y meysydd hynny lle y gwelwyd newid sylweddol ac a gyflwynwyd o'r blaen.

### 4.1 Diogelu

Rhaid i ysgolion allu dangos dealltwriaeth a gweithredoedd sy'n cyfrannu at ddatblygu cymunedau cydlynol, cydnerth yn eu rôl fel 'gwarcheidwaid cyfrifol'. Mae angen iddynt gael trefniadau ar waith i sicrhau diogelwch a lles pob dysgwr, o'u derbyn i'r ysgol drwy'r cyfnod ymsefydlu, monitro presenoldeb, rhaglenni dysgu a chymorth, a chamu ymlaen wedyn at ragor o ddysgu a chyflogaeth. Rhaid i'r trefniadau hyn gynnwys adnabod dysgwyr agored i niwed, y rhai y mae angen cymorth yn benodol arnynt a/neu'r rhai y mae perygl iddynt gael niwed.

Er mwyn sicrhau bod y trefniadau hyn yn cael eu rhoi ar waith yn effeithiol, eu bod yn cael eu monitro a'u hadolygu, rhaid penodi **uwch berson dynodedig (UBD)**. Bydd yr unigolyn hwn yn ganolbwynt ar gyfer diogelu, drwy ysgwyddo'r cyfrifoldeb am gydlynu ymatebion effeithiol i ymdrin ag unrhyw faterion sy'n codi a allai arwain at niwed drwy gam-drin neu esgeulustod, sicrhau bod trefniadau priodol ar waith a chyfleu'r angen am hyfforddiant rheolaidd ar lefelau priodol i bob categori o staff, boed y rheini wedi'u cyflogi'n uniongyrchol neu beidio.

Erbyn hyn, disgwylir i'r trefniadau hyn gael eu rhoi ar waith i **ddiogelu** dysgwyr sydd neu a allai fod yn agored i'w radicaleiddio, a hynny yn ei dro'n gallu arwain at eu cynnwys mewn ystod o weithgareddau a allai achosi niwed iddyn nhw'u hunain ac i bobl eraill. Bydd angen cymorth a hyfforddiant felly ar yr UBD i'w alluogi i adnabod ac ymateb i'r maes diogelu hwn.

Felly, mae hyn yn ddyletswydd ar bob aelod o'r staff, a dylid cadw mewn cof y tri gair hyn: ymwybyddiaeth, cyfrifoldeb a chyfathrebu. Mae hyn yn gofyn am hyfforddi staff yn effeithiol, a deall eu cyfrifoldebau'n llwyr, sicrhau bod protocolau clir ar waith ar gyfer llwybrau atgyfeirio er mwyn sicrhau cyfrinachedd a bod data sensitif yn cael eu gwarchod.

Mae'n bwysig hefyd bod y trefniadau diogelu'n mynd ymhellach na chamau ataliol, a'u bod yn cynnwys darpariaeth ar gyfer hybu amgylchedd diogel mewn ffordd weithredol a diwylliant diogel i ddysgwyr.

**Camau gweithredu**

- Sicrhau bod gweithdrefnau diogelu'n cynnwys darpariaeth ar gyfer adnabod a mynd i'r afael â'r risgiau sy'n berthnasol i radicaleiddio ac eithafiaeth dreisgar, a bod yr UBD wedi datblygu sianelu cyfathrebu ag asiantaethau allanol priodol, yn enwedig gwasanaeth yr heddlu (gweler Atodiad 1).
- Sicrhau bod yr UBD yn gwybod am y llwybr atgyfeirio yn yr awdurdod lleol a sut mae cysylltu â'r swyddog yn yr heddlu sy'n gweithredu fel y pwynt cyswllt unigol ar gyfer **Prevent** yn eu rhanbarth; gan ddefnyddio'r gwasanaeth a ddarperir gan swyddog cymuned ysgol yr heddlu.
- Sicrhau bod gweithdrefnau diogelu yn benodol yn mynd i'r afael â'r peryglon sy'n gysylltiedig â chael mynediad at adnoddau digidol a'u dylanwad sy'n cynnwys deunydd niweidiol, ac y mae ei negeseuon yn uniongyrchol groes i ddatblygu rhagor ar gydlyniant cymunedol a'i gynnal.
- Sicrhau bod yr UBD wedi cael hyfforddiant **Prevent** priodol drwy fynychu cwrs WRAP (gweithdy i godi ymwybyddiaeth o Prevent).

## 4.2 Meithrin yn amhriodol – cysylltiad â recriwtwyr

Mae proses radicaleiddio wedi bod yn destun ymchwil ac ymchwilio helaeth. Nid yw radicaleiddio nac yn unffurf nac yn llinellol ei natur ond yn hytrach mae'n broses gymhleth. Fel rheol, ond nid bob tro, bydd yn cynnwys meithrin gan ddylanwadau allanol sy'n cynnwys unigolion, grwpiau a'r cyfryngau digidol. Effaith gronnus y negeseuon hyn yw atgyfnerthu ymrwymiad yr unigolyn i lwybr sy'n gallu ond nad yw bob tro, yn arwain at eithafiaeth dreisgar.

Mewn llawer achos, bydd cysylltiad â recriwtwyr a'r negeseuon y byddent yn dymuno'u cyfleu yn dechrau gyda'r cyfryngau cymdeithasol a gwefannau. Yn is-adran 4.5, mae gwybodaeth a chyngor am beryglon o'r fath. Dylid pwysleisio, serch hynny, y gallai lleoliad corfforol unrhyw gyfarfod wyneb yn wyneb a rhyngweithio pellach gynnwys cartrefi preifat, lleoliadau cymunedol ac, fel y mae digwyddiadau diweddar yng Nghymru wedi'i ddangos, unigolion gwahanol sydd wedi cyfarfod a chydgynllwynio drwy ddod ynghyd mewn addysg ôl-16.

Er bod patrymau a llwybrau wedi'u sefydlu sy'n arwain at radicaleiddio, mae unigolion hefyd sydd i bob golwg wedi

gweithredu ar eu pen eu hunain, er bod modd olrhain llwybr o gysylltu â gwefannau sy’n cynnwys deunyddiau eithafol a niweidiol. Mae digwyddiad erchyll Anders Breivik yn Norwy’n cynnig tystiolaeth o hyn, er bod pobl eraill wedi teithio’r llwybr hwn hefyd heb allu cyflawni’r gweithredoedd a gynlluniwyd i’r un graddau o bell ffordd. Tystiolaeth o hyn yw achos diweddar Liam Lyburd, cyn-fyfyriwr yng Ngholeg Newcastle, a oedd wedi cynllunio cyflafan yn ei hen goleg.

Mae sylwi ar weithgareddau meithrin amhriodol yn golygu bod gofyn i ysgolion gael systemau cymorth bugeiliol datblygedig, a disgwylir iddynt sicrhau bod y rhain ar waith ganddynt. Mae angen i’r staff sy’n gyfrifol am ofal bugeiliol fod yn ymwybodol o’r dangosyddion sy’n awgrymu bod dysgwr yn agored i weithgarwch o’r fath. Wrth gwrs, rhaid inni fod yn ymwybodol o stereoteipio a chyffredinoli. Serch hynny, mae yna ddangosyddion a ddylai fod yn destun pryder, gan gynnwys presenoldeb, ynysu, anawsterau teuluol ac ar yr aelwyd, problemau iechyd meddwl, newidiadau amlwg mewn ymddygiad, pryd a gwedd, ymlyniad at grŵp ac agweddau. Bydd yn fwy anodd o lawer sylwi ar bobl sy’n defnyddio cyfryngau digidol at y diben hwn, yn enwedig ar safleoedd a phlatfformau sy’n cynnwys deunydd niweidiol, ond fe ddylai unrhyw awgrym o ddefnydd o’r fath fod yn achos pryder.

Fel yn is-adran 4.1, dylid defnyddio’r broses ‘ymwybyddiaeth, cyfrifoldeb a chyfathrebu’ i dywys staff er mwyn iddynt deimlo’n hyderus wrth adrodd eu pryderon i’r UBD.

**Camau gweithredu**

- Sicrhau bod hyfforddiant priodol ar gael i lywodraethwyr, yn enwedig y llywodraethwr dynodedig ar gyfer amddiffyn plant, penaethiaid a staff.
- Sicrhau bod yr holl staff, fel rhan o’u hyfforddiant diogelu yn cael eu hyfforddi’n unol â threfniadau lleol i adnabod a chyfleu eu pryderon ynghylch peryglon posibl sy’n gysylltiedig â meithrin amhriodol a dylanwadu niweidiol unigolion, grwpiau a chyfryngau digidol.

## 4.3 Digwyddiadau, cyfarfodydd a siaradwyr sy'n ymweld

Mae grwpiau sy'n gysylltiedig ag eithafiaeth wedi ceisio defnyddio ysgolion i ymgyrchu a chynnal digwyddiadau eraill ac mae'n debygol y gwelir mwy o geisiadau fel hyn. Y rheswm dros hyn yw bod y sector addysg bellach ac addysg uwch yng Nghymru'n cydweithio ac wedi cynhyrchu protocol ar gyfer siaradwyr allanol a hefyd brotocol fetio a threfnu safonol a fydd yn ei gwneud yn fwy anodd iddynt ddefnyddio adeiladau ysgol yn fforwm ar gyfer digwyddiadau fel hyn. Dylai ysgolion sicrhau bod eu polisi defnydd priodol yn nodi gwerthoedd yr ysgol a'i fod yn ei gwneud yn glir na chaiff unrhyw grŵp sydd ag amcanion sy'n groes i'r gwerthoedd hynny logi'r cyfleusterau.

Dylai ysgolion sefydlu protocol siaradwyr allanol er mwyn sicrhau bod unrhyw siaradwyr sy'n ymweld, boed y rheini'n cael eu gwahodd gan staff neu ddysgwyr, yn addas ac yn cael eu goruchwylio'n briodol. Mae *Fframwaith addysg bersonol a chymdeithasol ar gyfer dysgwyr 7 i 19 oed yng Nghymru* yn darparu fframwaith defnyddiol i ysgolion ar gyfer siaradwyr allanol. Ceir enghraifft o rhestr wirio ei ddarganfod trwy'r fframwaith ABCh[4].

Mae sefydliadau allanol wedi gofyn i wahanu pobl yn ôl rhyw mewn cyfarfodydd. Mae hyn hefyd yn gallu achosi pryder i sefydliadau yng Nghymru. Efallai y defnyddir hysbysiadau i ddangos ardal eistedd wahanol i'r ddau ryw mewn sectorau dynodedig o ystafell. Byddai gwahanu'r gynulleidfa fel hyn yn anghyfreithlon, ac eithrio mewn cyfarfod lle bydd pobl yn cydaddoli.

Ym mhob achos, rhaid i ysgolion gadw'r ddysgl yn wastad rhwng eu dyletswyddau i amddiffyn dysgwyr a staff a'u dyletswyddau i sicrhau rhyddid i lefaru. Mae'n amlwg, gall atgyfeirio i'r awdurdod lleol ac i ffynonellau cyngor priodol, gan gynnwys yr heddlu lleol, swyddogion **Prevent** a chydymffurfio â phrotocolau, sicrhau bod penderfyniadau priodol yn cael eu gwneud.

**Cam gweithredu**

- Sicrhau bod protocolau y cytunwyd arnynt ar waith ynghylch digwyddiadau, siaradwyr sy'n ymweld ac ymwelwyr eraill â sefydliadau, a bod y rhain yn destun monitro ac adrodd.

[4] learning.gov.wales/docs/learningwales/publications/130425-personal-and-social-education-framework-cy.pdf

## 4.4 Y cyd-destun geowleidyddol

Mewn ysgolion, mae'n ddoeth sicrhau bod staff yn ymwybodol o'r gymuned y maent yn ei gwasanaethu ac effaith bosibl materion geowleidyddol, er mwyn deall effaith dylanwad posibl ar unigolion ac ar grwpiau o ddysgwyr. Efallai mai'r rheswm dros hyn fydd cysylltiadau teuluol, crefyddol, diwylliannol, ethnig neu ieithyddol, neu oherwydd diddordeb arbennig mewn materion o'r fath.

Wrth gwrs, mae'n amhosibl rhoi gwybodaeth gynhwysfawr am holl barthau gwrthdaro a rhanbarthau ansefydlog y byd. Gall pethau ddigwydd yn annisgwyl ac fe all rhanbarthau sydd i bob golwg yn sefydlog droi'n sydyn yn anhrefn treisgar. Mae'n bwysig felly bod gan ysgolion sianeli cyfathrebu clir i asiantaethau allanol er mwyn sicrhau bod cyngor a chymorth ar gael, a bod diweddariadau rheolaidd yn cael eu darparu.

Yn 2014, y wlad a oedd yn achosi'r pryder mwyaf oedd Syria, ond yn ystod haf 2015, mae gwrthdaro'n digwydd o hyd mewn gwledydd sy'n cynnwys Irac a Syria, yn Somalia, Nigeria, Yemen, Libya ac yn nhiriogaeth Palestina rhwng Gaza ac Israel. Mae pryderon ynghylch yr effaith ar wledydd sy'n ffinio ar y parthau gwrthdaro hyn a'r rhai sydd â chysylltiadau clos â chymunedau sy'n byw ynddynt, megis Twrci ac Iran.

Yn Syria, mae'r gwrthdaro wedi troi'n rhyfel cartref. Chwalodd y gwrthwynebwyr yn y rhyfel hwn yn grwpiau ar sail enwadol, lwythol, rhanbarthol a gwleidyddol. Yn eu tro, mae lluoedd tramor wedi'u tynnu i mewn, o wledydd cyffiniol ar y dechrau ac yn ddiweddar o wledydd y tu allan i'r rhanbarth.

Mae'r datblygiad diweddaraf hwn wedi bod yn nodwedd o wrthdaro mewn mannau eraill yn y rhanbarth hefyd, ac mae hyn yn arbennig o berthnasol i'r Deyrnas Unedig, lle mae dynion ifanc, (ac yn gynyddol fenywod) wedi cael eu recriwtio i ymladd yn y rhyfeloedd, ar ochr carfannau penodol, yn benodol y rheini sy'n cynrychioli enwad penodol. Mae'r carfannau hyn yn gweld y frwydr hon yn rhan o ymgyrch ehangach yn erbyn enwadau gwrthwynebus ac yn erbyn llywodraeth sy'n cynrychioli system gymdeithasol, economaidd a chyfreithiol y maent yn ei gwrthwynebu'r gryf. Pwysleisir bod tystiolaeth o weithgarwch o'r fath yng Nghymru, a bod risg sylweddol yn sgil hyn.

Ymhlith y carfannau hyn, mae un grŵp yn benodol wedi sicrhau llwyddiant milwrol, tiriogaethol a hyd yn oed economaidd: mae'r acronym a'r disgrifydd wedi datblygu o ISIS, ISIL i'r Wladwriaeth Islamaidd (IS) ac weithiau Daesh, ffurf Arabeg y gair. Wrth i'r grwpiau newid ac ailffurfio'n barhaus, mae'n anodd sicrhau bod gennym yr asesiad diweddaraf o'r sefyllfa, er y pwysleisir bod y gwasanaethau diogelwch yn canolbwyntio ar y dasg hon.

Mae nifer o beryglon yn gynhenid i'r sefyllfa hon. Mae'n destun pryder ei bod yn bosibl iawn y bydd y dynion a'r menywod ifanc hyn yn colli eu bywyd yn y gwrthdaro hwn. Bydd rhai efallai'n ystyried hyn yn ferthyrdod yn gymaint ag yn drasiedi, gan annog rhagor i ddilyn yr un llwybr. Petaent yn gallu dychwelyd i'r Deyrnas Unedig, byddent yn gwneud hynny fel milwyr hyfforddedig, sydd wedi'u caledu mewn brwydr, a bydd eu hagweddau eithafol wedi'u cryfhau gan achosi perygl sylweddol i'n cymunedau, drwy eu gweithredoedd a'u dylanwad ar eu cyfoedion. Rhaid trin teithio i barthau rhyfel ac ardaloedd o wrthdaro gyda phryder mawr er mwyn osgoi'r potensial o radicaleiddio drwy fod yn agored i ideolegau eithafol a phrofiadau trawmatig. Mae ffynhonnell arall o fygythiad neu niwed wedi codi yn sgil ymdrechion i recriwtio merched ifanc i deithio i barthau gwrthdaro ac o bosibl i gael eu gorfodi i briodi â milwyr. Mae rhai o'r bobl ifanc hyn wedi cael eu radicaleiddio a'u recriwtio drwy ddefnyddio'r cyfryngau cymdeithasol (Saesneg yn unig) (www.gov.uk/government/uploads/system/uploads/attachment_data/file/440450/How_social_media_is_used_to_encourage_travel_to_Syria_and_Iraq.pdf).

Mae unrhyw un o ddinasyddion y Deyrnas Unedig nad yw'n aelod o'r lluoedd arfog neu un o'r cyrff cymorth sydd wedi'u cymeradwyo neu eu contractio gan y llywodraeth, sy'n cymryd rhan mewn rhyfel y tu allan i'r Deyrnas Unedig, yn debygol o ddenu sylw gwasanaethau diogelwch y Deyrnas Unedig a'r heddlu ac yn anochel, byddant yn wynebu ymchwiliad, yn debygol o gael eu harestio ac o bosibl eu cael eu dyfarnu'n euog am droseddau terfysgaeth.

Daeth tystiolaeth i law fod rhai pobl yn cael eu denu at y gwrthdaro ar ochr y lluoedd hynny sy'n gwrthwynebu IS ac felly rhaid gochel rhag unrhyw gyffredinoli ynghylch cymhellion a gweithredoedd.

Dylai ysgolion fod yn fannau diogel lle y gall dysgwyr ddeall a thrafod pynciau sensitif, gan gynnwys terfysgaeth a syniadau eithafol sy'n rhan o ideoleg y terfysgwr, a dysgu sut mae herio'r syniadau hyn.

**Camau gweithredu**

- Sicrhau bod yr UBD a'r rheolwyr sy'n gyfrifol am ymddygiad, cymorth a lles dysgwyr yn ymwybodol o'r peryglon sy'n codi i'r rheini sy'n bwriadu teithio i barthau gwrthdaro a sicrhau bod ystod y sianeli cyfathrebu a grybwyllir o'r blaen yn cael eu defnyddio'n llawn.
- Sicrhau bod cyngor y llywodraeth ar gael i ddysgwyr, e.e. cyngor y Swyddfa Gartref *How social media is used to encourage travel to Syria and Iraq* (Saesneg yn unig). Sicrhau bod staff yn gwybod ymhle i gael gafael ar gyngor a chymorth ychwanegol.
- Manteisio ar gyfleoedd yn y cwricwlwm i archwilio a herio'r materion a'r bygythiadau a godwyd o'r blaen, lle bynnag y bo hynny'n briodol.
- Hyrwyddo gwerthoedd democratiaeth, cyfraith gwlad, rhyddid yr unigolyn a pharch pobl at ei gilydd a goddefgarwch at bobl sy'n arddel crefyddau a chredoau gwahanol.

## 4.5 Technoleg gwybodaeth a chyfathrebu – llythrennedd digidol

Mae dyfeisiau symudol soffistigedig, hyblyg a phwerus ar gael yn rhwydd i'r rhan fwyaf helaeth o'r boblogaeth ac mae tua 90 y cant o blant yn y Deyrnas Unedig bellach yn defnyddio'r dyfeisiau hyn. Mae'r dyfeisiau ffonau clyfar a llechi hyn yn caniatáu i bobl gael gafael ar ddeunydd a allai fod yn niweidiol ar adegau ac mewn mannau ymhell o drefniadau monitro a rheoli ysgolion a theuluoedd. Mae'r seilwaith cyfathrebu symudol wedi gwella'n sylweddol hefyd, os nad ym mhobman, felly mae gwybodaeth ddigidol ar gael yn rhwydd mewn amrywiaeth o fformatau. Mae'r amgylchedd digidol hwn sy'n newid yn gyflym wedi bod yn heriol, yn enwedig lle mae polisïau ac arferion wedi'u goddiweddyd gan dechnolegau.

Mae monitro cyfrifiaduron ysgol, er bod hynny wedi'i seilio ar dechnolegau hidlo gwell a mynediad o bell at sgriniau, yn llai tebygol o lawer erbyn hyn o allu atal dysgwyr neu staff rhag cael gafael ar ddeunydd sydd heb ei awdurdodi neu ddeunydd anaddas. Yn yr un modd, mae'r rheini sydd mewn swyddi cyfrifol mewn ysgolion wedi'i chael hi'n anodd cynnal eu gwybodaeth a'u dealltwriaeth o'r dirwedd ddigidol sy'n newid mor gyflym.

Ond pa mor heriol bynnag yw hyn, disgwylir o hyd i ysgolion gydymffurfio â'r rheoliadau, y protocolau a'r canllawiau ynghylch sut i ddefnyddio adnoddau TG yn ddiogel mewn ysgolion, gan gynnwys technolegau hidlo. Yn yr achos diweddar ym Manceinion lle y plediodd merch 16 oed yn euog o droseddau o dan y Ddeddf Derfysgaeth, roedd hi wedi defnyddio system TG yr ysgol i chwilio am wybodaeth am Jihadi John, IS a delweddau o Michael Adebollago, ac mae hyn yn dangos bod angen i ysgolion sicrhau eu bod yn ystyried y safonau a argymhellir ar gyfer hidlo'r we yn ysgolion Cymru (www.gov.wales/docs/dcells/publications/150629-recommended-web-filtering-standards-cy.pdf).

Dylai'r gweithdrefnau gynnwys cyfeirio at unrhyw ofyniad i staff neu ddysgwyr ymchwilio i bynciau sy'n gysylltiedig ag eithafiaeth dreisgar neu derfysgaeth. Dylai ymchwil o'r fath fod yn agored i gymeradwyaeth a fetio gofalus gan uwch staff priodol. Mae achosion pwysig wedi datgelu bod diffyg cysondeb wrth roi rheolaethau o'r fath ar waith a bod hyn wedi arwain at enghreifftiau o gamddefnydd dros gyfnod estynedig heb i neb sylwi gan gynyddu'r potensial ar gyfer niwed i'r unigolyn ac i eraill.

Yn yr un modd ag y mae caledwedd wedi'i drawsnewid, mae'r nifer fawr o sianeli a phlatfformau ar gyfer cyfathrebu drwy eiriau a delweddau wedi arwain at ffrwydrad yn y maes cyfathrebu sy'n golygu ei bod yn fwy anodd o lawer monitro a phwyso a mesur unrhyw berygl.

**Camau gweithredu**

- Sicrhau bod adroddiadau ynglŷn â mynediad at ddeunydd niweidiol yn cael eu harchwilio'n ddi-oed, a bod staff yr ysgol yn cael eu hyfforddi yn y cyfleoedd a'r peryglon sy'n gynhenid i'r ystod amrywiol o dechnolegau digidol sy'n datblygu a bod staff yn manteisio ar gyfleoedd i archwilio'r risgiau o fewn y cwricwlwm.
- Sicrhau bod polisïau a phrotocolau ynglŷn â dulliau diogel o ddefnyddio adnoddau TG yn cael eu hadolygu'n rheolaidd a'u diweddaru gan ddefnyddio hidlyddion lle bynnag y bo modd (gweler y safonau a argymhellir ar gyfer hidlo'r we yn ysgolion Cymru[5]).
- Sicrhau bod y cyfrifoldeb am gynnal gwybodaeth gyfoes am ddatblygiadau ym maes technolegau digidol a allai fod yn niweidiol yn cael ei roi i aelod dynodedig o'r staff sydd â'r wybodaeth a'r sgiliau priodol.
- Sefydlu gweithdrefnau clir ar gyfer staff a dysgwyr sy'n ymwneud ag ymchwil ym maes terfysgaeth ac eithafiaeth.

## 4.6 Ysgolion sy'n canolbwyntio ar gymunedau

Nid ynysoedd yw ysgolion a nhw'n aml yw'r rhan fwyaf sefydlog o unrhyw gymuned, gan chwarae rhan allweddol yn natblygiad a chynnal cydlyniant cymunedol. Mae creu cyfleoedd i ddysgwyr ryngweithio a chydweithio y tu allan i'r cwricwlwm ffurfiol yn hollbwysig, yn enwedig mewn cymuned lle bydd y boblogaeth yn newid yn aml.

Drwy weithio gyda phartneriaid, gall ysgolion gynnig ystod eang o weithgareddau i ddysgwyr ar dir yr ysgol ac mewn lleoliadau y tu allan i'r ysgol, gan gynnwys mewn clybiau a grwpiau ar ôl ysgol, canolfannau ysgolion a hyfforddiant atodol a fydd yn gefn i'w dysgu.

Serch hynny, mae'n bwysig bod ysgolion yn sicrhau bod ganddynt drefniadau priodol i sicrhau bod trefniadau diogelu ar waith, yn enwedig lle bydd sefydliad arall yn darparu gwasanaethau neu weithgareddau. Dylai hyn gynnwys gwirio bod polisi diogelu wedi'i fabwysiadu gan sefydliad allanol.

5 www.gov.wales/docs/dcells/publications/150629-recommended-web-filtering-standards-cy.pdf

At hynny, gallai'r peryglon fod yn ddwysach yn sgil natur gymhleth y ddarpariaeth, gan gynnwys ysgolion amgen, dysgu seiliedig ar waith, darpariaeth yn y gymuned, safleoedd lloeren a darpariaeth sy'n cael ei hisgontractio.

**Cam gweithredu**

- Sicrhau bod y ffordd y caiff polisïau, prosesau a gweithdrefnau eu gweithredu yn cael ei monitro ym mhob lleoliad lle mae dysgwyr yn bresennol, beth bynnag y bydd maint, natur a lleoliad y ddarpariaeth.

## 4.7 Cwricwlwm

Mae pwysigrwydd sicrhau bod dysgwyr yn datblygu ystod o 'sgiliau ehangach' yn cael ei gydnabod yn hanfodol wrth ddatblygu dysgwyr cydnerth sydd, fel y dywedodd yr Athro Donaldson yn ei adolygiad o'r cwricwlwm, yn gallu delio â'r heriau newidiol sy'n wynebu unigolion yn awr ac yn y dyfodol. Bydd datblygu'r sgiliau hyn, drwy addysgu o safon uchel yn help i hyrwyddo hawliau dynol ac yn galluogi dysgwyr i herio naratifau eithafol; gan helpu i feithrin cydlyniant cymunedol a gwrthsafiad i radicaleiddio ac eithafiaeth dreisgar.

Bydd angen i athrawon feithrin hyder i ddelio â materion sensitif a dadleuol sy'n codi fwyfwy ar draws y cwricwlwm, yn enwedig os bydd pobl ifanc yn agored i'w radicaleiddio ac yn mabwysiadu naratifau eithafol.

Mae ystod eang o adnoddau ar gael ar gyfer pob cyfnod allweddol a thynnwyd sylw at rai o'r rhain yn Atodiad 1 o'r ddogfen ganllawiau wreiddiol *Gwrthsafiad a pharch* (sylwch nad yw rhai o'r adnoddau hyn ar gael rhagor). Mae ystod fwy o lawer o adnoddau ar gael yn awr ac mae'r rhain yn dal i gael eu datblygu gan ystod o sefydliadau cydnabyddedig gan gynnwys cyrff pynciau, yr heddlu a byrddau arholi.

Mae'r Rhaglen Graidd Cyswllt Ysgolion Cymru Gyfan SchoolBeat.org (www.schoolbeat.org/cy) yn darparu adnoddau a gwersi y gellir eu cyflwyno gan swyddogion cyswllt yr heddlu ag ysgolion. Mae cyfres o wersi am **hunaniaeth ddiwylliannol ac eithafiaeth** ar gael.

Mae Cymhwyster Bagloriaeth Cymru (CBC) diwygiedig yn rhoi pwyslais ar weithio o fewn cyd-destun ac mae CBC Genedlaethol/Sylfaen *Her dinasyddiaeth fyd-eang. Diffyg cydraddoldeb – Eithafiaeth*

(www.cbac.co.uk/qualifications/qualification-resources.html?level=ks4NationalFoundation&subject=welshbaccalaureate&language_id=2) yn cynnig cyd-destun a her dilys. Mae'r ymchwil wedi dangos ei bod yn bwysig creu cyd-destun dilys er mwyn sicrhau bod dysgwyr yn gweld perthnasedd y materion dan sylw.

**Camau gweithredu**

- Defnyddio cyfleoedd o fewn y cwricwlwm i archwilio a herio'r materion hyn lle bynnag y bo hynny'n briodol.
- Adolygu'r adnoddau a awgrymwyd yn y ddogfen ganllawiau wreiddiol.
- Trafod â swyddog cymuned ysgol yr heddlu pa agweddau o'r rhaglen graidd a allai fod yn briodol i'ch ysgol a'i chyd-destun.

## 4.8 Fframwaith arolygu Estyn

Mae ffocws clir ar ddiogelu'n flaenoriaeth absoliwt i ysgolion ac mae hyn yn cael ei adlewyrchu yn ymagwedd Estyn at sicrhau safonau uchel yn y maes hwn o gyfrifoldebau ysgol. Mae Estyn yn awr yn disgwyl i ysgolion gynllunio a darparu cyfres o gamau cadarnhaol a sicrhau bod dysgwyr yn cael eu cadw'n ddiogel rhag peryglon radicaleiddio ac eithafiaeth.

Mae Deddf Gwrthderfysgaeth a Diogelwch 2015 wedi cael ei hychwanegu at restr o ddeddfwriaeth berthnasol yn Atodiad 3 o'r llawlyfrau arolygu a hefyd yn y *Arweiniad atodol: arolygu diogelu mewn ysgolion ac UCDau* (2015) (www.estyn.llyw.cymru/sites/default/files/documents/Supplementary%20guidance%20-%20Safeguarding%20in%20Schools%20and%20PRUs%20cy%20-%20Autumn%202015.pdf).

Mae'r ffurflen hunanwerthuso ar gyfer diogelu ac amddiffyn plant yn ei gwneud yn ofynnol i ysgolion ddisgrifio sut mae'r ysgol yn cadw dysgwyr yn ddiogel rhag peryglon radicaleiddio ac eithafiaeth.

Nid yw'r newidiadau i'r canllawiau'n golygu gofynion adrodd newydd. Dim ond pan fydd hynny'n briodol ac yn unol â'r canllawiau y bydd adroddiadau'n cynnwys sylwadau.

Bydd hyn yn cynnwys tystiolaeth ddogfennol o fonitro ac adolygu, diwygio polisïau a gweithdrefnau'n rheolaidd, a chadw cofnod effeithiol o atgyfeiriadau a chanlyniadau. Bydd hefyd yn cynnwys tystiolaeth o ddatblygiad proffesiynol parhaus sy'n berthnasol i'r ystod o faterion a archwilir yn y canllawiau hyn ar y lefel briodol ac i'r staff priodol. Mae *Gwrthsafiad a pharch: Datblygu cydlyniant cymunedol – pecyn hunanasesu*

*2016*[6] sy'n gysylltiedig â'r canllawiau atodol *Gwrthsafiad a pharch* hwn wedi'i gynllunio i sicrhau cydymffurfio â'r arferion gorau yn y prosesau a'r gweithgareddau hyn.

**Camau gweithredu**

- Sicrhau bod y dogfennau allweddol ynglŷn â diogelu yn cael eu hystyried a bod y pecyn cymorth sy'n gysylltiedig â'r canllawiau hyn yn cael ei ddefnyddio er mwyn sicrhau cydymffurfio â'r arferion gorau.
- Sicrhau bod staff yn ymwybodol o arweiniad atodol diwygiedig Estyn a bod staff yn gallu disgrifio sut mae'n cadw dysgwyr yn ddiogel rhag peryglon radicaleiddio ac eithafiaeth.
- Sicrhau bod uwch reolwyr yr ysgol a'i chorff llywodraethu'n rhagweithiol wrth reoli'r agwedd hon o ddydd i ddydd ac yn y tymor hwy.

## 4.9 Strategaethau'r llywodraeth

Adolygwyd Strategaeth Prevent Llywodraeth y Deyrnas Unedig yn 2011, a'i diweddaru eto yn 2014, a rhestrir ei hegwyddorion hanfodol yma. Prevent yw un o bedwar llinyn strategaeth wrth-derfysgaeth llywodraeth y Deyrnas Unedig, CONTEST, ac mae'n ymwneud yn bennaf â gweithgarwch cyn-droseddol. Nod Prevent yw rhwystro pobl rhag dod yn derfysgwyr neu rhag cefnogi terfysgwyr ac eithafiaeth dreisgar. Bydd Prevent yn mynd i'r afael â phob math o derfysgaeth ond mae'n dal i flaenoriaethu yn ôl y bygythiad sydd i'n diogelwch cenedlaethol.

Mae'r llywodraeth wedi ymrwymo'n sylfaenol i warchod rhyddid i lefaru yn y wlad hon ond bydd atal terfysgaeth yn golygu herio syniadau eithafol (ac anrheisgar) sydd hefyd yn rhan o ideoleg derfysgol. Bydd Prevent hefyd yn golygu ymyrryd i rwystro pobl rhag symud o grwpiau eithafol neu eithafiaeth i weithgarwch sy'n gysylltiedig â therfysgaeth.

Bydd strategaeth Prevent yn benodol yn:

- ymateb i **her ideolegol** terfysgaeth a'r bygythiad rydym yn ei wynebu gan y rheini sy'n ei hybu

[6] www.gov.wales/topics/educationandskills/publications/guidance/respectresilience/?skip=1&lang=cy

- **atal unigolion rhag cael eu denu at derfysgaeth** a sicrhau eu bod yn cael cyngor a chymorth priodol
- gweithio gyda **sectorau a sefydliadau** lle bydd perygl o radicaleiddio y mae angen rhoi sylw iddo.

Mae'r strategaethau hyn yn cael eu hadolygu'n rheolaidd er mwyn ymateb yn effeithiol i beryglon a bygythiadau wrth iddynt newid.

# 5. Gwrthsafiad a pharch – crynodeb o'r canllawiau

Mae'r ddogfen hon yn cynnig canllawiau i ysgolion a darparwyr gofal plant yng Nghymru er mwyn sicrhau eu bod yn cydymffurfio â gofynion statudol Deddf Gwrthderfysgaeth a Diogelwch 2015 a'r canllawiau diwygiedig cysylltiedig Prevent Duty Guidance, Gorffennaf 2015. Mae wedi cael ei ddiwygio'n drwyadl er mwyn sicrhau ei fod yn gywir, yn gyfredol ac yn gynhwysfawr, gan barhau'n adnodd defnyddiol i lywodraethwyr, penaethiaid, athrawon a staff cymorth mewn ysgolion. Mae'n gysylltiedig â phecyn cymorth, sydd hefyd wedi'i ddiwygio'n drwyadl, sy'n galluogi ysgolion i asesu lefel eu cydymffurfio â'r gofynion statudol newydd, ac i ba raddau y gallant honni eu bod yn darparu cymuned ddysgu ddiogel.

Mae'r canllawiau hefyd yn archwilio'r bygythiadau sy'n wynebu ysgolion, cyd-destun ehangach y bygythiadau hyn, yn ogystal â datblygiadau ym maes diogelu a'r mecanweithiau cymorth sydd ar waith yn awr. Mae'n nodi pwysigrwydd y gwerthoedd craidd a ddylai osod y cyd-destun ar gyfer addysgu a dysgu mewn ysgolion, yn ogystal â datblygiadau yn y cwricwlwm sy'n darparu cyfrwng i herio eithafiaeth dreisgar ac anhreisgar, a'u canlyniadau.

Ynghyd â'r pecyn hunanasesu, mae'r ddogfen yn galluogi ysgolion i asesu peryglon a chymryd y camau priodol i fynd i'r afael â nhw, drwy gamau gweithredu o fewn ysgolion ac mewn cydweithrediad ag asiantaethau allanol. Elfen ganolog o lwyddiant y strategaeth hon yw cyfathrebu effeithiol o fewn ysgolion a hyfforddiant priodol ar bob lefel.

Fel sy'n wir am unrhyw strategaeth eang ei natur, bydd angen hyfforddi a datblygu er mwyn sicrhau y bydd yn cael ei rhoi ar waith yn llwyddiannus. Gall ysgolion gysylltu â'u cydlynydd Prevent neu gael gwybodaeth am hyfforddiant cryfhau ymwybyddiaeth am radicaleiddio y Swyddfa Gartref, sef y gweithdy i gryfhau ymwybyddiaeth o Prevent (WRAP). Am ragor o wybodaeth e-bostiwch WRAP@homeoffice.x.gsi.gov.uk

Gan fod hwn yn faes gweithgarwch sy'n gallu newid yn gyflym ac weithiau'n annisgwyl, bydd y canllawiau hyn yn cael eu diweddaru'n rheolaidd i sicrhau bod y cynnwys a'r cyngor yn para'n gyfredol, yn gywir ac yn gynhwysfawr.

# 6. Crynodeb o'r camau gweithredu a nodwyd yn Adran 4 – canllawiau diwygiedig

**4.1 Diogelu**

- Sicrhau bod gweithdrefnau diogelu'n cynnwys darpariaeth ar gyfer adnabod a mynd i'r afael â'r risgiau sy'n berthnasol i radicaleiddio ac eithafiaeth dreisgar, a bod yr UBD wedi datblygu sianelu cyfathrebu ag asiantaethau allanol priodol, yn enwedig gwasanaeth yr heddlu (gweler Atodiad 1).
- Sicrhau bod yr UBD yn gwybod am y llwybr atgyfeirio yn yr awdurdod lleol a sut mae cysylltu â'r swyddog yn yr heddlu sy'n gweithredu fel y pwynt cyswllt unigol ar gyfer **Prevent** yn eu rhanbarth; gan ddefnyddio'r gwasanaeth a ddarperir gan swyddog cymuned ysgol yr heddlu.
- Sicrhau bod gweithdrefnau diogelu yn benodol yn mynd i'r afael â'r peryglon sy'n gysylltiedig â chael mynediad at adnoddau digidol a'u dylanwad sy'n cynnwys deunydd niweidiol, ac y mae ei negeseuon yn uniongyrchol groes i ddatblygu rhagor ar gydlyniant cymunedol a'i gynnal.
- Sicrhau bod yr UBD wedi cael hyfforddiant **Prevent** priodol drwy fynychu cwrs WRAP (gweithdy i godi ymwybyddiaeth o Prevent).

**4.2 Meithrin yn amhriodol – cysylltiad â recriwtwyr**

- Sicrhau bod hyfforddiant priodol ar gael i lywodraethwyr, yn enwedig y llywodraethwr dynodedig ar gyfer amddiffyn plant, penaethiaid a staff.
- Sicrhau bod yr holl staff, fel rhan o'u hyfforddiant diogelu yn cael eu hyfforddi'n unol â threfniadau lleol i adnabod a chyfleu eu pryderon ynghylch peryglon posibl sy'n gysylltiedig â meithrin amhriodol a dylanwadu niweidiol unigolion, grwpiau a chyfryngau digidol.

**4.3 Digwyddiadau, cyfarfodydd a siaradwyr sy'n ymweld**

- Sicrhau bod protocolau y cytunwyd arnynt ar waith ynghylch digwyddiadau, siaradwyr sy'n ymweld ac ymwelwyr eraill â sefydliadau, a bod y rhain yn destun monitro ac adrodd.

## 4.4 Y cyd-destun geowleidyddol

- Sicrhau bod yr UBD a’r rheolwyr sy’n gyfrifol am ymddygiad, cymorth a lles dysgwyr yn ymwybodol o’r peryglon sy’n codi i’r rheini sy’n bwriadu teithio i barthau gwrthdaro a sicrhau bod ystod y sianeli cyfathrebu a grybwyllir o’r blaen yn cael eu defnyddio’n llawn.
- Sicrhau bod cyngor y llywodraeth ar gael i ddysgwyr, e.e. cyngor y Swyddfa Gartref *How social media is used to encourage travel to Syria and Iraq* (Saesneg yn unig). Sicrhau bod staff yn gwybod ymhle i gael gafael ar gyngor a chymorth ychwanegol.
- Manteisio ar gyfleoedd yn y cwricwlwm i archwilio a herio’r materion a’r bygythiadau a godwyd o’r blaen, lle bynnag y bo hynny’n briodol.
- Hyrwyddo gwerthoedd democratiaeth, cyfraith gwlad, rhyddid yr unigolyn a pharch pobl at ei gilydd a goddefgarwch at bobl sy’n arddel crefyddau a chredoau gwahanol.

## 4.5 Technoleg gwybodaeth a chyfathrebu – llythrennedd digidol

- Sicrhau bod adroddiadau ynglŷn â mynediad at ddeunydd niweidiol yn cael eu harchwilio’n ddi-oed, a bod staff yr ysgol yn cael eu hyfforddi yn y cyfleoedd a’r peryglon sy’n gynhenid i’r ystod amrywiol o dechnolegau digidol sy’n datblygu a bod staff yn manteisio ar gyfleoedd i archwilio’r risgiau o fewn y cwricwlwm.
- Sicrhau bod polisïau a phrotocolau ynglŷn â dulliau diogel o ddefnyddio adnoddau TG yn cael eu hadolygu’n rheolaidd, a’u diweddaru, gan ddefnyddio hidlyddion lle bynnag y bo modd (gweler y safonau a argymhellir ar gyfer hidlo’r we yn ysgolion Cymru).

- Sicrhau bod y cyfrifoldeb am gynnal gwybodaeth gyfoes am ddatblygiadau ym maes technolegau digidol a allai fod yn niweidiol yn cael ei roi i aelod dynodedig o'r staff sydd â'r wybodaeth a'r sgiliau priodol.
- Sefydlu gweithdrefnau clir ar gyfer i staff a dysgwyr sy'n ymwneud ag ymchwil ym maes terfysgaeth ac eithafiaeth.

**4.6 Ysgolion sy'n canolbwyntio ar gymunedau**

- Sicrhau bod y ffordd y caiff polisïau, prosesau a gweithdrefnau eu gweithredu yn cael ei monitro ym mhob lleoliad lle mae dysgwyr yn bresennol, beth bynnag y bydd maint, natur a lleoliad y ddarpariaeth.


**4.7 Cwricwlwm**

- Defnyddio cyfleoedd o fewn y cwricwlwm i archwilio a herio'r materion hyn lle bynnag y bo hynny'n briodol.
- Adolygu'r adnoddau a awgrymwyd yn y ddogfen ganllawiau wreiddiol.
- Trafod â swyddog cymuned ysgol yr heddlu pa agweddau o'r rhaglen graidd a allai fod yn briodol i'ch ysgol a'i chyd-destun.

**4.8 Fframwaith arolygu Estyn**

- Sicrhau bod y dogfennau allweddol ynglŷn â diogelu yn cael eu hystyried a bod y pecyn cymorth sy'n gysylltiedig â'r canllawiau hyn yn cael ei ddefnyddio er mwyn sicrhau cydymffurfio â'r arferion gorau.
- Sicrhau bod staff yn ymwybodol o arweiniad atodol diwygiedig Estyn a bod staff yn gallu disgrifio sut mae'n cadw dysgwyr yn ddiogel rhag peryglon radicaleiddio ac eithafiaeth.
- Sicrhau bod uwch reolwyr yr ysgol a'i chorff llywodraethu'n rhagweithiol wrth reoli'r agwedd hon o ddydd i ddydd ac yn y tymor hwy.

# Atodiad 1: Y broses atgyfeirio



# Atodiad 2: Cyfeiriadau

## Dogfennau Llywodraeth Cymru


*Gwrthsafiad a pharch, datblygu cydlyniant cymunedol – dealltwriaeth gyffredin ar gyfer ysgolion a'u cymunedau* (2011)
www.gov.wales/docs/dcells/publications/110209respectcy.pdf

*Cadw dysgwyr yn ddiogel – Rôl awdurdodau lleol, cyrff llywodraethu a pherchnogion ysgolion annibynnol o dan Ddeddf Addysg 2002* (2015)
www.gov.wales/docs/dcells/publications/150114-keeping-learners-safe-cy.pdf

*Safonau a argymhellir ar gyfer hidlo'r we yn ysgolion Cymru* (2015)
www.gov.wales/docs/dcells/publications/150629-recommended-web-filtering-standards-cy.pdf


## Dogfennau eraill


*Revised Prevent Duty Guidance: for England and Wales* (HM Government, 2015) (Saesneg yn unig)
www.gov.uk/government/uploads/system/uploads/attachment_data/file/445977/3799_Revised_Prevent_Duty_Guidance__England_Wales_V2-Interactive.pdf

*Channel Duty Guidance* (HM Government, 2015) (Saesneg yn unig)
www.gov.uk/government/publications/channel-guidance

*Arweiniad atodol: arolygu diogelu mewn ysgolion ac UCDau* (Estyn, 2015)
www.estyn.llyw.cymru/sites/default/files/documents/Supplementary%20guidance%20-%20Safeguarding%20in%20Schools%20and%20PRUs%20cy%20-%20Autumn%202015.pdf

*Her dinasyddiaeth fyd-eang. Diffyg cydraddoldeb – amrywiaeth* (CBC Genedlaethol/Sylfaen)
www.cbac.co.uk/qualifications/qualification-resources.html?level=ks4NationalFoundation&subject=welshbaccalaureate&language_id=2